Ffurflen 2: Hysbysiad o Fwriad i gymryd Absenoldeb Rhiant a Rennir (Mam/Prif Fabwysiadwr)

Datganiad os mai chi yw'r fam/prif fabwysiadwr ac yn gyflogedig gan y brifysgol

Hoffwn hysbysu'r brifysgol fy mod i (y fam/prif fabwysiadwr) yn gymwys i gymryd absenoldeb rhiant a rennir ac fy mod yn bwriadu gwneud hynny.

Nodaf fod rhaid i mi roi rhybudd o'm hawl a'm bwriad o leiaf 8 wythnos cyn dechrau'r absenoldeb rhiant a rennir trwy gyflwyno'r ffurflen hon.

ADRAN A: Cyffredinol	
Enw'r gweithiwr	
Enw'r rhiant arall	
ADRAN B: Manylion am absenoldeb mamolaeth neu dâl mamolaeth	
Dyddiad dechrau absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu neu dâl (neu lwfans mamolaeth)	
Dyddiad gorffen absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu neu dâl (neu lwfans mamolaeth)	
Dyddiad geni disgwyliedig/dyddiad lleoliad (os yn mabwysiadu)	
Gwir ddyddiad geni/dyddiad lleoliad (os yn mabwysiadu)	
ADRAN C: Cyfanswm yr Absenoldeb Rhiant a Rennir	
Cyfanswm yr absenoldeb rhiant a rennir sydd ar gael (mewn wythnosau llawn, e.e. 52 wythnos gan dynnu nifer yr wythnosau o absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu/tâl mamolaeth sydd wedi eu cymryd neu sydd i'w cymryd erbyn dyddiad gorffen y cyfnod mamolaeth)	
Cyfanswm yr absenoldeb rhiant a rennir y mae'r gweithiwr yn bwriadu ei gymryd, yn cynnwys dyddiadau (nid yw hyn yn eich ymrwymo)	Cyfanswm yr wythnosau: Dyddiadau:

Cyfanswm yr absenoldeb rhiant a rennir y mae partner y gweithiwr yn bwriadu ei gymryd, yn cynnwys dyddiadau (nid yw hyn yn eich ymrwymo)	Cyfanswm yr wythnosau: Dyddiadau:
Cynllun tâl absenoldeb rhiant a rennir (Ticiwch y cynllun yr ydych yn ei ddewis)	☐ Cynllun absenoldeb rhiant a rennir y brifysgol ☐ Cynllun absenoldeb rhiant a rennir statudol

ADRAN D: Datganiad y gweithiwr

Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth uchod yn gywir a hefyd;

- Fy mod yn bodloni'r amodau cymhwysedd (neu byddaf yn eu bodloni erbyn y dyddiad dechrau) ac fy mod yn gymwys i gymryd absenoldeb rhiant a rennir
- Fi oedd (neu fi fydd) yn bennaf gyfrifol am ofalu am y plentyn adeg genedigaeth y plentyn (ynghyd â'm partner sydd wedi gwneud y datganiad isod)
- Os byddaf yn peidio â bod yn gyfrifol am ofalu am y plentyn, byddaf yn hysbysu'r brifysgol ar unwaith
- Mae gennyf yr hawl i gymryd absenoldeb mamolaeth, caiff fy nghyfnod absenoldeb mamolaeth ei leihau ac mae'r wythnosau sydd ar ôl bellach ar gael fel absenoldeb rhiant a rennir
- Byddaf yn rhoi copi o dystysgrif geni fy mhlentyn neu ddatganiad o'r dyddiad a'r man geni (os nad oes tystysgrif ar gael) i'm cyflogwr o fewn 14 diwrnod i'r hysbysiad hwn neu ar ôl genedigaeth y plentyn.
- Rwy'n cydsynio i Brifysgol Bangor gadarnhau dyddiad gorffen fy nghyfnod o absenoldeb a thâl mamolaeth/mabwysiadu os bydd cyflogwr fy mhartner yn gofyn am y wybodaeth honno

Llofnod		Dyddiad	

ADRAN E: Datganiad y rhiant arall

Enw	
Cyfeiriad	
Rhif Yswiriant Gwladol (Nodwch 'dim' os nad oes rhif ar gael)	
Enw a chyfeiriad y cyflogwr (neu nodwch os yn hunan-gyflogedig)	

Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth uchod yn gywir a hefyd;

- adeg dyddiad genedigaeth y plentyn neu leoliad mabwysiadu roeddwn yn bennaf gyfrifol am y plentyn/plant gyda'r aelod staff Prifysgol Bangor a enwir uchod
- Rwy'n cydsynio â chyfanswm yr absenoldeb rhiant a rennir y mae'r gweithiwr uchod yn bwriadu ei gymryd, fel y nodwyd yn Adran C
- Rwy'n gymwys i gael absenoldeb rhiant a rennir a byddaf yn rhoi gwybod i'r fam/prif fabwysiadwr ar unwaith os byddaf yn peidio â bodloni'r amodau cymhwysedd
- Rwy'n cydsynio i'r wybodaeth a gynhwysir yn y ffurflen hon gael ei phrosesu gan Brifysgol Bangor
- Rwy'n cydsynio i Brifysgol Bangor gysylltu â'm cyflogwr i gadarnhau'r manylion am absenoldeb rhiant a rennir a'm hawl i'w gymryd
- Fi yw tad y plentyn neu briod/partner sifil neu bartner y fam/prif fabwysiadwr

Llofnod		Dyddiad	

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl at: Jade Luke, Adnoddau Dynol. Gellir gwneud hyn trwy e-bost.